**Cofnodion is-bwyllgor Cymorthdaliadau a gynhaliwyd nos Iau, Gorffennaf 24ain 2014 am 6 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Colin Hughes, Shereen Lunt, Medwyn Williams a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Roy Tickle, Gaynor Wood, Rob Parkes

1. **Ethol cadeirydd ac is gadeirydd**: Etholwyd y Cyng Colin Hughes yn gadeirydd gyda'r Cyng Shereen Lunt yn is gadeirydd.

2. **I drafod ac argymell polisi ar daliadau cymorthdaliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2014/2015:** Cytunwyd i argymell polisi i sicrhau fod digon o arian ar gael i ariannu pob cais am gymorthdaliadau fel a ganlyn:

(1) Ceisiadau oddi wrth elusennau cenedlaethol. I argymell parhau a'r polisi o £100 y cais ond i gadw rhagorfraint os byddai sefyllfa leol benodol neu argyfwng.
(2) Ceisiadau oddi wrth elusennau lleol. I argymell parhau a'r polisi fod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.
(3) O gymryd i ystyriaeth nifer y ceisiadau a dderbynnir gan y cyngor a'r ariannu oedd ar gael o fewn y gyllideb bresennol, i argymell parhau a'r polisi o osod uchafswm o £3,000 ar gyfer pob cais. Cytunwyd hefyd i argymell fod pob cais yn cael ei archwilio'n ofalus ac os bydd angen i ofyn am fwy o wybodaeth.
(4) Bod rhaid i fantolen neu gyfrifon gael ei gynnwys gyda phob cais ac os nad oedd hyn ar gael fod angen eglurhad pam nad oedd hyn yn bod.

Dywedwyd mai cyfanswm cymorthdaliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol oedd £50,000. Roedd £32,450 ar ôl yn y gyllideb (dyrannwyd £17,550 i wyth cais).

Ystyriwyd dau gais. Cytunwyd i argymell y canlynol ynglŷn â phob un o'r ceisiadau

(1) Flintshire Optec Exchange. Cais newydd. Cais am grant tuag at ariannu cyfnewid myfyrwyr Japaneaidd ar Orffennaf 31ain 2014. Bydd y myfyrwyr yn aros gyda myfyrwyr o Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint a'u teuluoedd. Roedd ceisiadau yn cael eu gwneud i gynghorau tref a chymuned lle'r oedd y myfyrwyr o Ysgolion Sir y Fflint a ddewiswyd yn byw. Dewiswyd cyngor tref Dinbych gan fod un myfyriwr yn byw ym Mhrion. Cytunwyd i argymell gwrthod y cais ac i dynnu sylw at y ffaith fod y cartref tu allan i awdurdodaeth y cyngor tref ac i awgrymu i gais gael ei wneud i Gyngor Cymuned Llanrhaeadr.
(2) Menter Iaith Sir Ddinbych. Cais blynyddol. Gofynnwyd am £2,950 tuag at gostau prosiect o £2,950 i gynnal nifer o ddigwyddiadau yn Ninbych i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd i'r economi lleol yn ystod y flwyddyn. Cytunwyd i argymell grant o £2,950 (A.145)

Cyfanswm grantiau a argymhellwyd - £2,950 gan adael balans o £29,500 yng nghyllideb cymorthdaliadau ar gyfer y 8 mis oedd yn weddill yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Terfynwyd y cyfarfod am 6.11 o'r gloch.